Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

Medi 8fed, 2023

GWYBODAETH BWYSIG I BAWB

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Croeso'n ôl wedi'r gwyliau. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y gwyliau haf ac yn barod am flwyddyn brysur yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cydweithrediad ar gychwyn y tymor newydd. Hoffwn hefyd ganmol y plant am y ffordd y maent wedi ymateb i'r trefniadau dychwelyd.
Dyma ychydig o wybodaeth bwysig i chi ar gychwyn y tymor newydd.

Cyswllt gyda'r athrawon dosbarth:
Gallwch e-bostio'r athrawon dosbarth yn uniongyrchol os oes angen. Gallwch wneud hyn ar gyfer cyfathrebu negeseuon pwysig i'r athro dosbarth, e.e. newid amseroedd nosweithiau rhieni a.y.y.b. Oherwydd rhesymau amddiffyn data, ni ddylid defnyddio'r e-bost i gyfnewid gwybodaeth gyfrinachol. Isod gwelir cyfeiriad e-bost pob athro. Ni ddylid defnyddio'r system e-bost i wneud cwyn os gwelwch yn dda.

Miss Amy Morris	MorrisA21@hwbmail.net
Mrs Laura Davies	DaviesL2654@hwbcymru.net
Miss Manon Davies	DaviesM125@hwmbail.net
Mrs Delyth Jones	DempseyJonesD5@hwbmail.net
Mrs Esther Rowlands	RowlandsE180@hwbcymru.net
Miss Bethan Morris	MorrisB27@hwbmail.net
Mr Dyfan Jones	JonesD106@hwbmail.net
Mrs Manon Williams	WilliamsM1666@hwbmail.net
Miss Elliw Evans	EvansE42@hwbmail.net
Miss Catrin Rowlands	RowlandsC193@hwbcymru.net
Mrs Laura Davies	inclusion@hwbmail.net

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Rydym yma i helpu ac rydym wastad yn awyddus i drafod unrhyw faterion a datrys unrhyw broblem er llês y plant.

Yn y lle cyntaf, os oes gennych bryder ynghylch eich plentyn (addysg/ymddygiad ayyb) – cysylltwch â'r **athro/athrawes dosbarth**. Efallai y cewch eich cyfeirio at aelod arall o staff yr ysgol.

Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb – dylech chi gysylltu gyda **Mrs Manon Williams** (Pennaeth Cyfnod Allweddol 2), **Mrs Manon Davies** (Pennaeth Cyfnod Sylfaen) neu **Mr Dyfan Jones** (Dirprwy Bennaeth).

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltwch â **Mr Rhodri Jones** (Pennaeth)

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, dylech gysylltu â **Mr Geraint Phillips**, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.

Cydgysylltydd Llês ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yw **Mrs Laura Davies.** Mae Mrs Davies ar gael i drafod pryderon sydd yn ymwneud a datblygiad a llês eich plentyn, ac i drafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gallai'r ysgol ei gynnig i'ch plentyn os oes angen. Bydd angen trefnu amser cyfleus ar gyfer unrhyw apwyntiad neu drafodaeth gyda Mrs Davies, gan y bydd yn gyfrifol am y dosbarth derbyn am y mwyafswm o'i hamserlen wythnosol. Bydd Miss C Rowlands hefyd yn cydweithio gyda Mrs Davies nid yn unig ar lawr dosbarth yn y dosbarth derbyn, ond bydd hefyd yn cefnogi grwpiau yn ystod yr wythnos gyda gweithgareddau llythrennedd, rhifedd a llês.

Traffig a threfniadau casglu diwedd dydd – Gofynnwn unwaith eto i bawb barchu trefniadau parcio ar gychwyn ac ar ddiwedd dydd. Mae hi'n gallu bod yn sefyllfa anodd, ac felly gofynnwn am amynedd a chydweithrediad pawb. Er mwyn cadw lleoliadau pwysig yn glir, ni ddylid parcio mewn ardaloedd ble mae coniau wedi ei gosod. Os ydych yn dod i gasglu plentyn sydd yn gorffen am 3 o'r gloch, dylech gyrraedd safle'r ysgol ddim cynt na deg munud cyn yr amser casglu gan wneud pob ymdrech i symud oddi ar y safle yn brydlon wedi i chi gasglu eich plentyn. Os ydych yn casglu eich plentyn o flwyddyn 3,4 5 neu 6 am 3.15, yna yn yr un modd ni ddylech gyrraedd y safle ddim cynt na 10 munud cyn yr amser casglu. Bydd hyn yn hwyluso trefniadau parcio i bawb ac yn galluogi i fwy o rieni fedru parcio ar y safle ar yr amseroedd casglu priodol. Os yn bosib wrth gwrs, byddem yn annog i bob rhiant/ofalwr sydd yn gallu, i osgoi dod a char ar gampws yr ysgol. Gofynnwn i bob rhiant/warchodwr sydd yn casglu plant ar ddiwedd dydd i gael mynediad i gampws yr ysgol drwy'r giât sydd ar ochr dde yr adeilad o gyfeiriad y maes parcio, ac yna dilyn y llwybr un ffordd o amgylch yr ysgol. Dylid ymadael a'r buarth gan ddilyn y llwybr un ffordd. A fyddech cystal â sicrhau fod eich plentyn yn aros gyda chi ar ôl cael ei ryddhau gan yr athro/awes. Mae'r maes parcio yn le prysur o ran traffig ac felly rydym yn eich annog i sicrhau eich bod yn goruchwylio eich plentyn yn ystod y cyfnod prysur hwn wrth ymadael a'r ysgol. Yn yr un modd gofynnwn i chi gymryd pwyll wrth yrru allan o gampws yr ysgol gan gadw at gyflymder o ddim mwy na 5mya. Diolch.

Ysmygu / 'Fapio' – Ni roddir caniatad i unrhyw riant/ofalwr i ysmygu neu fapio (vaping) ar gampws yr ysgol. Mae arwyddion i'w gweld ar fynedfeydd yr ysgol.

Absenoldebau/Prydlondeb - Mae presenoldeb yn flaenoriaeth barhaus nid yn unig i'r ysgol ond hefyd i'r Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth a'r ysgol yn monitro lefelau presenoldeb ac yn cysylltu gyda theuluoedd pan fydd pryderon yn codi o ran lefelau presenoldeb unigolion. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Os yw eich plentyn yn sâl, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol yn syth ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn. Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda. Anogir pob rhiant/gofalwr i beidio trefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Rhannwyd gwybodaeth bwysig ynglŷn â phresenoldeb ar ddiwedd tymor yr haf.

Gweler isod amseroedd sesiynau dyddiol i oedrannau gwahanol. A fyddech cystal â rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw berthnasau neu ofalwyr sydd â chyfrifoldeb i ddod a chasglu eich plentyn o'r ysgol. **Sylwer fod sesiwn y bore yn cychwyn i blant oed derbyn hyd at flwyddyn 6 am 8:55. DISGWYLIR I BOB PLENTYN GYRRAEDD YR YSGOL YN BRYDLON AC AR AMSER GAN OSGOI CYRRAEDD YN HWYR.**

8:55 – Dysgu Sylfaen (Derbyn/Bl1 &2) CA2 (Bl. 3/4/5/6) cychwyn
15:00 – Dysgu Sylfaen (Derbyn/Bl.1 &2) gorffen
15:15 - CA2 (Bl. 3/4/5/6) gorffen
9:00 – 11:30 Meithrin bore cychwyn/gorffen

Casglu plant yn gynnar o'r ysgol – Hoffwn annog pob rhiant / ofalwr i wneud pob ymdrech i geisio osgoi gwneud hyn os nad oes gwir angen ac oni bai fod argyfwng. Mae'n gallu amharu ar addysg y plentyn, ac yn achosi anghyfleustra di-angen. Diolch am eich cydweithrediad.

Cinio ysgol – Mae cinio ysgol ar gael am ddim i bob plentyn o oed derbyn hyd at flwyddyn 6, ac yn cael ei weini yn neuadd yr ysgol ar amseroedd gwahanol ar gyfer grwpiau oed gwahanol. MAE'N RHAID **dewis cinio ysgol ymlaen llaw gan ddefnyddio ParentPay, gan gynnwys plant sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Nid yw'r ysgol bellach yn gallu archebu eu cinio, rhaid ei wneud trwy eu cyfrif ParentPay cyn 8am ar y bore** neu gallwch archebu hyd at 6 wythnos ymlaen llaw. **Os nad yw rhieni/ofalwyr wedi archebu cinio ar gyfer eu plentyn, yna ni ellir sicrhau y bydd pryd poeth llawn ar gael i'r plentyn, ac mae'n bosib mai pryd mwy syml neu frechdanau yn unig a gynigir.**
Os nad ydych wedi derbyn manylion mewngofnodi eich plentyn ar gyfer ParentPay, cysylltwch â swyddfa'r ysgol trwy e-bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

Cŵn - Hoffwn eich atgoffa, oherwydd resymau iechyd a diogelwch, nad oes caniatad i gŵn ddod ar gampws yr ysgol. Diolch am eich cyd-weithrediad.

Beics – Rydym yn awyddus i annog iechyd a ffitrwydd ein disgyblion, ac mae beicio i'r ysgol yn ffordd wych i hybu hyn. Os yw eich plentyn yn defnyddio'r beic i ddod i'r ysgol, ac os nad yw eich plentyn yn ddisgybl blwyddyn 6, gofynnwn i chi drefnu fod eich plentyn yn cael ei oruchwylio gan oedolyn wrth deithio i'r ysgol ac adref o'r ysgol ar feic. Byddwn hefyd yn annog i bob plentyn wisgo helmed ddiogelwch.

Rhai dyddiadau eraill:

Dathlu Diwnod Owain Glyndŵr - Gall y plant wisgo dillad coch, gwyn neu wyrdd	**15/09/23**
Nosweithiau cwricwlaidd	**25/09/23**
Cyfarfod CRhA	**09/10/23 (6 o'r gloch)**
Ymweliad Blwyddyn 4 i Wersyll yr Urdd Glan Llyn	**12/10/23-13/10/23**
Diwrnod dangos cerdyn coch i hiliaeth – Gwisgo dilledyn coch gyda Cyfraniad o £1 tuag at yr ymgyrch	**20/10/23**
Plant i gyflwyno cyfraniadau bwyd tuag at y Banc Bwyd lleol fel rhan o ddathliadau Diolchgarwch.	**23/10/23**
Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddoedd 5&6 yng Nghapel Bethel, Ponciau	**25/10/23 (10.30 y.b.)**
Ysgol yn cau am yr hanner tymor	**27/10/23**
Yr ysgol yn ail-agor i staff a disgyblion	**6/11/23**
Chwistrelliad ffliw – Derbyn – Blwyddyn 6	**13/11/23**
Nosweithiau Rhieni	**20/11/23-22/11/23**
Ffair 'Dolig	**2/12/23**
Diwedd tymor – diwrnod olaf i staff a disgyblion	**21/12/23**

Nosweithiau Cwricwlaidd Galw-mewn – Gweler y dyddiadau uchod. Bydd hwn yn gyfle i chi gyfarfod athro/awes dosbarth eich plentyn a derbyn ychydig o wybodaeth ynglŷn â dosbarth eich plentyn.

Cyfathrebu – Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol (www.hooson.cymru), Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal â App yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion allweddol.

Byddem yn gwerthfawrogi a byddai o gymorth mawr pe byddai rhieni/gofalwyr yn sicrhau fod y wybodaeth uchod yn cael ei gyfathrebu gydag unrhyw oedolion/berson sydd gyda chyfrifoldeb am ddod a'r plant i'r ysgol neu gasglu'r plant o'r ysgol. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth